

# *YR HEUWR*

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 10
MAWRTH 2008

Cynhelir Gŵyl y Pasg yn gynnar iawn eleni a chyn diwedd mis Mawrth fe fyddwn wedi dathlu o'r newydd Atgyfodiad ein Harglwydd Iesu. Trwy ei aberth ar groesbren Calfaria fe drawsffurfiwyd anobaith, creulondeb a thywyllwch i fod yn gyfrwng gobaith, cariad a goleuni. Ie, edrychwn ymlaen at lawenhau yng ngwirioneddau'r ffydd a dathlu o'r newydd neges yr efengyl a gyhoeddwyd ym mywyd ac yng ngwaith Iesu Grist.

Ond beth yn union a ddigwyddodd ar groesbren Calfaria? A sut y mae marwolaeth Iesu Grist wedi sicrhau maddeuant inni heddiw? Mae'r Apostol Paul yn ceisio disgrifio yr hyn a ddigwyddodd drwy ddefnyddio sawl darlun a oedd yn gyfarwydd i bobl ei gyfnod. Dywed bod yr Iesu wedi talu ffi drosom â'i fywyd ei hun er mwyn ein rhyddhau o gaethiwed pechod, yn yr union ffordd y byddai pobl yn talu ffi neu bridwerth i ryddhau caethweision : "Oherwydd Mab y Dyn", meddai'r Iesu, " yntau, ni ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer". Mewn man arall dywed Paul fod aberth Iesu fel penllanw holl ddefodau aberthol Israel, a'i fod ar gyfer pob oes, un waith ac am byth: "Oblegid fe wnaeth ef hyn un waith am byth pan fu iddo offrymu'i hun". Yn ogystal, disgrifir gwaith Crist fel buddugoliaeth dros ddrygioni a thywyllwch y byd hwn: "Diarfogodd y tywysogaethau a'r awdurdodau, a'u gwneud yn sioe gerbron y byd yng ngorymdaith ei fuddugoliaeth arnynt ar y groes". Bu'r gwaith ar Galfaria yn fodd i selio cyfamod newydd rhyngom â Duw : "Am hynny, y mae ef yn gyfryngwr cyfamod newydd…er sicrhau rhyddhad oddi wrth y troseddau a gyflawnwyd dan y cyfamod cyntaf". A thrwy waith y Groes cawsom ein cymodi â Duw : "yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag Ef ei hun".

Ond y mae Paul yn ei lythyr at yr Effesiaid yn disgrifio yr hyn a gyflawnwyd ar groesbren Calfaria mewn ffordd, gredai i, sydd yn medru siarad â phob cyfnod ac â phob person yn ddiwahân. Dywed yn ei lythyr fod Duw wedi dod â'r pell yn agos: "Ond yn awr, yng Nghrist Iesu, yr ydych chwi, a fu unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy waed Crist". Efelychir y syniad yma ym mhennill olaf emyn mawr a chyfarwydd W. Rhys Nicholas:

"Tydi sy'n haeddu'r clod, ddihalog Un,
mae ystyr bywyd ynot ti dy hun;
yr wyt yn llanw'r gwacter drwy dy air,
daw'r pell yn agos ynot, O Fab Mair;"

Y mae Gŵyl y Pasg yn cynnig cyfle newydd i ninnau gofio am waith Duw yn dwyn y nef yn agos atom ac am y modd y bu iddo gyffwrdd bywyd a chalon dyn. Yn Nameg y Mab Afradlon, adroddir hanes dyn ifanc yn dychwelyd adre' i fod yn agos at ei Dad. Os ydym ninnau wedi ymbellháu oddi wrth Dduw, bydded i ninnau y Pasg hwn agosáu ato o'r newydd gan orfoleddu ym mhresenoldeb y Crist atgyfodedig.

Pob bendith
Judith
47 Glanceulan, Penrhyn-coch. SY23 3HF
Rhif Ffôn : 01970 820920 : E-bost : morris@coedlas.plus.com

**CALENDR MIS MAWRTH**

| | | |
|---|---|---|
| 2 Mawrth<br>10.30<br>2.30yp | <br>Clwb Sul<br>Oedfa Gymun<br>Gweinidog | "Byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch crefydd, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi." |
| 9 Mawrth<br>10.30 | Oedfa Deuluol<br>Gweinidog | |
| 16 Mawrth<br>2.30yp | Oedfa Sul y Blodau<br>Parchedig Wyn Morris | "Bendigedig yw'r un sydd yn dod yn frenin yn enw'r Arglwydd."<br><br>Te i Ddilyn yr Oedfa |
| 19 Mawrth<br>7.30yh | Cofio Gŵyl y Pasg | Oedfa i gofio am yr Arglwydd Iesu yn dathlu Gŵyl y Pasg yn yr Oruwchystafell. |
| 23 Mawrth<br>10.30yb | Oedfa Sul y Pasg<br>Gweinidog | "Nid yw ef yma; y mae wedi ei gyfodi." |
| 30 Mawrth<br>10.30yb | Oedfa<br>Sul y Pasg Bach<br>Gweinidog | "Gwyn eu byd y rhai a gredodd heb iddynt weld." |

**I'R DYDDIADUR**

3 Mawrth : Cinio Cymorth Cristnogol, Neuadd y Plwyf, Eglwys San Mihangel. 12.00-1.30yp
6 Mawrth : Cyfarfod Pwyllgor Os Mêts am 7yh yn Festri'r Garn
7 Mawrth : Darlith yn Neuadd yr Eglwys gan Richard Ireland am 7.30yh : "Carcharorion Oes Fictoria"
12 Mawrth : Os Mêts : Festri'r Garn am 7yh yng Nghwmni Coleg y Bala. Croeso cynnes.
15 Mawrth: Cinio Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yng Ngwesty'r Four Seasons. Gwraig wadd : Elan Closs Stephens.
16 Mawrth : Cyngerdd ym Methel a drefnir gan Cerys Humphreys i godi arian tuag at Daith Gerdded Mencap: Côr ABC; Crwys Evans; Plant Bethel 7.30yh. Tâl Mynediad : £5 neu £3.50 i .Bensiynwyr. Plant am Ddim.
18 Ebrill: Gweithgor Ceredigion yn Horeb am 2.00yp. Disgwylir y Parchedig Eirian Wyn Lewis i annerch.
20 Gorffennaf : Fe fydd ein cenhades gyswllt yn ymweld â Bethel a Horeb ar y Sul hwn.

**LLOFFION**

**Dymuniadau gorau** i'r rhai a fu yn yr ysbyty:

- Keith Morris
- Parchedig Peter Thomas

Gwellhad buan i'r ddau ohonoch.

**Cydymdeimlo** :Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu y ddiweddar chwaer Megan Jones, Bethel (Pedwar Gwynt, Cae Mawr gynt). Bu Megan yn ffyddlon iawn i Horeb pan oedd yn byw ym Mhenrhyn-coch.

**Ethol Diaconiaid :** Byddwn fel eglwys yn ethol diaconiaid ar ddiwedd yr oedfa ar y Sul cyntaf ym mis Mai. Mawr hyderwn y bydd yna gefnogaeth dda i'r cyfarfod hwn.

**Rota Cyhoeddi** : Yng nghyfarfod diweddar y diaconiaid penderfynwyd y byddai pob diacon yn cymeryd at y gwaith o gyhoeddi, yn ei dro, yn ystod yr oedfaon.

**Clwb Cinio Cymunedol : Apêl am fwy o wirfoddolwyr.** Y mae'r Clwb Cinio yn mynd o nerth i nerth a Horeb yn gwneud ei rhan i gynorthwyo gyda'r arlwyo. Mawr yw ein diolch i Sandra, Eirlys, Glenys M, Dafydd a Mair am eu cymorth parod. Byddwn yn falch o groesawu rhagor i ymuno â thîm Horeb. Ar hyn o bryd y mae'n golygu ymrwymiad o 3 awr unwaith bob deufis, ond fe fyddai hyn yn gostwng pe bai rhagor yn medru ymuno.